# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(180)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 2 a 4 i 9. Tynnwyd cwestiynau 3, 13 a 15 yn ôl. Atebwyd cwestiwn 6 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 10 a 13 i 15. Tynnwyd cwestiynau 11 a 12 yn ôl. Atebwyd cwestiynau 1, 2, 9 a 1 3 gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi.

**Datganiad gan y Llywydd**
Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Aelodau, oherwydd y bydd y cynnig a ganlyn yn mynd gerbron yr Uchel Lys eleni, y byddai'r rheol 'sub judice', a amlinellir yn Rheol Sefydlog 13.15 yn gymwys i'r ddadl.

### 3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

Dechreuodd yr eitem am 14.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5423 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) yr effaith andwyol y mae colli eu pensiynau wedi'i chael ar dros 700 o gyn-weithwyr Visteon sy'n byw yn ardal Abertawe a'r cyffiniau;

b) yr effaith ddilynol y mae colli pensiynau gweithwyr Visteon wedi'i chael ar economi Abertawe a'r cyffiniau;

c) y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ar 2 Ebrill eleni ers cau Visteon fel cwmni, a bod gorymdaith fawr yn cael ei threfnu yn San Steffan; a

d) bod eleni'n flwyddyn bwysig i'r ymgyrch, o ystyried y bydd achos llys Unite the Union yn erbyn Ford yn cael ei gynnal yn yr Uchel Lys yn Llundain ddiwedd 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i effaith colli eu pensiynau ar weithwyr Visteon ac ar economi'r ardal lle maent yn byw.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 14 | 4 | 41 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 4 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter

Dechreuodd yr eitem am 15.27

**NDM5429 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Ardaloedd Menter, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.57

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5430 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen frys i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus o ran cyflenwad tai yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 11 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 16.52

**6 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 16.52

**NDM5419 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**
Rheoli diwygio lles

Sut y mae cynghorau lleol yn defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn i liniaru effaith newidiadau i fudd-dal tai.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014**